**Cofnodion o gyfarfod Cyngor Cymuned Llanrug a gynhaliwyd ar 15 Tachwedd 2022, drwy Zoom am 19:00.**

**Presennol:** Y Cynghorwyr Meirwen Lloyd (Cadeirydd), Avril Jones (Is-gadeirydd), Alan Pritchard, Richard Robinson, Hefin Jones, Gwynedd Williams, Philip Roberts, Berwyn Parry Jones, Ann Lawton.

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Emyr Jones, Beca Brown

**Clerc:** Meirion Jones

**Aelodau o'r cyhoedd:** Neb

**1048. I dderbyn croeso gan y Cadeirydd**

Estynnwyd croeso cynnes iawn i bawb i'r cyfarfod a diolchodd y cadeirydd am bresenoldeb yr aelodau

**1049 . Derbyn ymddiheuriadau.**

Derbyniwyd ymddiheuriadau fel a nodwyd uchod

**1050. Datgan buddiant personol.**

Rhain i'w cofnodi fel yn briodol

**1051. Cadarnhau cofnodion cyfarfod 18 Hydref 2022**

Cadarnhawyd y cofnodion ac fe'i arwyddwyd gan y Cadeirydd

**1052. I dderbyn unrhyw sylwadau yn codi o'r cofnodion.**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Alan Pritchard, fod un fainc wedi chwblhau gan Menter Fachwen ac fydd y llall ddim yn hir ar gyfer eu gosod er côf am y diweddar Gynghorwyr Charles Jones a Brian Jones

**1053. Cyfranogiad y Cyhoedd (os yn bresennol)**

Dim aelod o'r cyhoedd yn bresennol

**1054. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones aelod dros Cwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.**

## Cyngor Gwynedd

## Premiwm Tai Haf

Ymgynghoriad allan ar hyn o bryd ynglŷn a'r posibilrwydd o godi y Premiwm i fyny o 100% i hyd at 300%. Mae'r manylion ar wefan y cyngor os oes rhywun eisiau cymryd rhan

**Arbedion a Toriadau**

Y broses o ffeindio arbedion neu toriadau wedi dechrau Ar y funud yn chwilio am £20 miliwn i gymharu a'r flwyddyn waethaf sydd wedi bod yn y gorffennol yn chwilio am £8m.

**Cynllun Hawliau Tramwy**

Mae'r cynllun yma allan i ymgynghoriad ar y funud, mae'r manylion ar wefan y Cyngor

**Bwrdd Newid Hinsawdd**

Y Bwrdd wedi cyfarfod yn ddiweddar, dyma'r cynlluniau sydd ar y gweill:-

Gwyrddio y fflyd – prynu ceir / faniau trydan pan yn adnewyddu cerbyd.

Gosod pwyntiau gwefru mewn gwahanol leoliadau

Rhoi paneli solar ar weddill adeiladau y cyngor os yn bosib.

**Yn Lleol**

Delio hefo gwahanol geisiadau am gymorth gan drigolion.
Mae cyfle yn awr i ni ofyn i'r Tîm Tacluso ddod i'r ardal yma, byddai yn fuddiol creu rhestr yn barod cyn ei galw.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1055. I dderbyn adroddiad gan y Cynghorydd Beca Brown, aelod dros Llanrug ar Gyngor Gwynedd**

Cyngor Gwynedd

Mae gwaith yn parhau yn yr ysgolion rheiny sydd angen eu haddasu er mwyn iddyn nhw fedru cynnig cinio ysgol am ddim yn unol ag amserlen Gwynedd a Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun wedi bod yn llwyddiannus iawn hyd yma

gyda niferoedd da yn derbyn pryd poeth amser cinio. Mae capasiti ac offer wedi bod yn heriol i rai ysgolion ond mae gwaith da yn digwydd i gyfarch yr heriau rheiny.

Mae'r datblygiadau yn y Gwasanaeth Trochi yn gyffrous iawn wrth i bentref rhithiol Aberwla gael greu ar y cyd efo cwmni animeiddio o M-Sparc. Bydd cyfle i hwyrddyfodiaid i Wynedd drio eu Cymraeg mewn byd rhithiol cyn mentro i'r byd go iawn i wneud hynny. Yr awdures Anni Llŷn sydd yn creu'r deunydd a mae o'n sicr yn mynd i wneud dysgu Cymraeg yn gyfoes ac atyniadol i blant.

Bydd cyfarpar digidol newydd wedi cyrraedd yr ysgolion i gyd cyn hir mewn symudiad i liniaru anghyfartaledd rhwng disgyblion.

Lleol

Mae paratoadau yn mynd rhagddynt ar gyfer ail-wynebu rhan o Ffordd yr Orsaf. Bydd gofyn i drigolion wneud cynlluniau parcio amgen dros y cyfnod a bydd peth amharu ar fusnesau'r stryd. Y gobaith yw y bydd y cyfan mor ddi-boen â phosib ac y bydd yr wyneb newydd yn gwella cyflwr ac edrychiad y ffordd. Rwyf wedi derbyn gymaint o gwynion am geir yn cael difrod oherwydd y tyllau yn y lôn ac mi fydd cael trwsio'r lôn yn iawn o'r diwedd yn wych.

Cynyddu mae'r pryderon am draffig o gylch yr ysgol gynradd ar adegau gollwng a chodi ac rwyf wedi bod mewn sgyrsiau efo'r ysgol, y cyngor ac efo'r Bwrdd Teithio Llesol.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1056. I dderbyn adroddiad gan y Pwyllgor Hamdden**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones, Cadeirydd y Pwyllgor Hamdden nad oedd cyfarfod wedi bod ond fod llawer iawn wedi digwydd. Ymhelaetho fod y poster ar gyfer y gystadleuaeth goleuadau Nadolig yn barod i fynd ar dudalen Facebook y cyngor, a'r bwriad eleni ydi i ymgeiswyr anfon lluniau i'r clerc. Yn hytrach na mynd o gwmpas yn beirniadu pob un, byddai rhestr fer yn cael ei thynnu a dim ond ymweld a'r rheini.

Adroddwyd fod y goeden Nadolig yn Llanrug i'w rhoi yn yr Ysgol Gynradd ac fod trefniadau ar y gweill gyda Cyngor Gwynedd i'w gosod. Y bwriad ydi ei goleuo ar noson Ffair Nadolig yr Ysgol.

O ran y caeau chwarae adroddwyd fod angen gwrio yr asesiadau risg ac edrych beth sydd angen ei wneud ar frys ac adroddwyd fod y Cynghorydd Avril Jones a'r Cynghorydd Meirwen Lloyd, wedi bod yn gwirio y rhestrau o ddiffygion fel a'i adnabuwyd ar yr asesiad risg

Adroddwyd fod angen rhoi rheolau y maes chwarae fyny ac y byddai'r clerc yn ymchwilio os oes templedi ar gael ac y gallwn eu addasu fel yn briodol.

Adroddwyd fod ein cais am grant ar gyfer diffibriliwr wedi bod yn llwyddiannus ac fydd ddim rhaid i'r cyngor dalu dim ond am ei osod. Bydd y diffibriliwr yma yn

cael ei osod ar wal y Fricsan a diolchwyd iddynt am eu parodrwydd i gytuno i hyn.

O ran y fainc sydd wedi lleoli ger parc sglefrio Cwm y Glo, adroddwyd fod angen creu polisi i sicrhau fod y cyngor yn cadw at yr egwyddorion ac yn unol a'i bolisi. Byddai'r clerc yn cysylltu ar fforymau clercod traws y Deyrnas Unedig i holi os oes gan unrhyw gyngor arall dempled fyddent yn fodlon ei rannu, fel y gallwn ei addasu fel yn briodol i anghenion Cyngor Cymuned Llanrug.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolchwyd am yr adroddiad

**1057. I dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Philip Roberts , Cadeirydd y pwyllgor ei fod mewn sefyllfa i gadarnhau fod ein cais am grant tuag at Elusen Dyffryn Peris am hysbysfwrdd newydd yn y fynwent wedi bod yn llwyddiannus a diolchodd i'r elusen am eu haelioni.

Adroddwyd fod cyfarfod o'r pwyllgor wedi gynnal ar y safle er trafod y gwaith sydd angen ei wneud. Ymysg y materion a drafodwyd oedd:-

- Lleoliad yr hysbysfwrdd – nodwyd mai'r man mwyaf addas oedd wrth ochr y cwt.
- Cytunwyd fod angen slabiau newydd o flaen y cwt
- Fod angen cwblhau y gwaith peintio
- Cwblhau'r gwaith ar y byrddau fasgia
- Symud y tanciau dŵr wrth ochr y cwt
- Angen gwaith ar y wal sydd ar y ffordd i'r fynwent ac fod hwn angen sylw brys.
- Trafodwyd y giât sydd wrth y fynedfa i'r cwt a penderfynwyd nad oedd pwrpas iddi, roedd yn beryglus felly penderfynwyd ei thynnu.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad

**1058. I gymeradwyo cau cyfrif 'Llanrug Poor House'.**

Nodwyd fod cryn drafodaethau wedi bod yn y gorffennol am y cyfrif uchod a gofynnir i'r cyngor gymeradwyo ei gau ac i'r clerc wneud y trefniadau angenrheidiol.

**Penderfynwyd:** Cau'r cyfrif yn gyfan gwbl ac ystyried dosbarthu'r arian yn unol a nod ac amcanion yr elusen pan a'i sefydlwyd

**1059. I dderbyn diweddariad ar y cynllun bwyd ac i gymeradwyo'r argymhellion**

Adroddoddwyd gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, Cadeirydd y pwyllgor fod ein cais am grant tuag at ymestyn y cynllun bwyd ymlaen am y 12 mis nesaf wedi bod yn llwyddiannus. Oherwydd ar y pryd ansicrwydd parthed cyflenwad bwyd o Fareshare, manteisiwyd am y cyfle o ymdrechu am grant fyddai yn ein galluogi i brynu bwyd pe byddai cyflenwad Fareshare yn byrhau, felly mae hyn yn newyddion da iawn.

Nodwyd ein bod wedi derbyn ad-daliad oddiwrth Fareshare am y bwyd nid oeddynt wedi gallu ei ddarparu

Fod y Cynghorydd Avril Jones am drafod gyda becws os byddent yn fodlon cyflenwi bara

Fod cyfrif ar ran y cyngor wedi agor gyda 'Booker Cash and Carry' ac fod y Cynghorydd Berwyn Parry Jones a'r clerc wedi bod draw yn edrych beth oedd ar gael. Cawson gyngor ac arweiniad gan aelod o'r staff ar pa fath o nwyddau i'w prynu.

Rydym nawr mewn sefyllfa i restru faint, ac i amcangyfrif ein gwariant hyd ddiwedd Mawrth 2023.

**Penderfynwyd:** Derbyn a diolch am yr adroddiad a penderfynwyd ymhellach y canlynol fod angen llythyr o ddiolch i'r holl wirfoddolwyr sydd ynghlwm a'r cynllun, i garej Cwm y Glo ac i'r holl wirfoddolwyr sydd yn cynorthwyo mewn gwahanol ffyrdd.

**1060. Ceisiadau Cynllunio – am fwy o fanylion am y ceisiadau yma, dilynwch y linc yma ble gellir chwilio am y cais drwy ddyfynnu 'Rhif y cais'.**
**https://amg.gwynedd.llyw.cymru/planning/index.html?fa=search**

a) **Rhif y Cais:** C22/0942/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:**Estyniad deulawr cefn.
**Ymgeisydd:** Mr and Mrs Jamie Prebble
**Asiant:** Mr Alan Owen (A.L.I Buiding Design)
**Cyfeiriad:** Graianfryn Ffordd Yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4BA
**Cyfeirnod Grid:** 254128.67, 363641.17
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

**Penderfynnwyd:** Dim gwrthwynebiad

b) **Rhif y Cais:** C22/0838/23/DT
**Math o Gais:** Cais Deiliaid Tŷ
**Bwriad:** Dylunio estyniad deulawr i gymryd lle un presennol. Mynedfa gerbydol newydd i wella llinellau gwelededd. Codi sïed yn lle un bresennol.
**Ymgeisydd:** Corinne & Vito Ricciardi
**Asiant:** Mr Jonathan Huthwaite (Evergreen Architects)
**Cyfeiriad:** Clawdd Cerrig, 2, The Terrace, Cwm Y Glo, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4DF
**Cyfeirnod Grid:** 255093.06, 362708.87
**Ward:** Cwm y Glo
**Parish / Cymuned:** Llanrug

**Penderfynwyd:** Dim gwrthwynebiad

c) **Rhif y Cais:** C22/1025/23/LL
**Math o Gais:** Cais Llawn
**Bwriad:** Trosi sied ardd sydd o fewn cwrtil ty  fforddiadwy i fusnes salon trin cwn.
**Ymgeisydd:** Miss Eirian Pritchard
**Cyfeiriad:** 4 Sŵn Yr Efail, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4FG
**Cyfeirnod Grid:** 253092.16, 363369.46
**Ward:** Llanrug
**Cymuned:** Llanrug

Cais yma wedi dod ger bron y cyngor dan rhif cyfeirnod: C22/0520/23/DT Ble cefnogwyd y cais gan Gyngor Cymuned Llanrug ond ymddengys fod Cyngor Gwynedd wedi gwrthod y cais am y rhesymau a nodwyd.

**Penderfynwyd:** Mynegwyd siom gan y cyngor cymuned fod y cais yma wedi ei wrthod am resymau yn nhyb y cyngor doedd ddim yn adlewyrchu beth fyddai rhediad y busnes. Mae'r cyngor yn nodi fod adeiladau cyffelyb ar hyd a lled i Sir sydd ddim yn unol a'r rhesymau a nodwyd fod y cais yma wedi ei wrthod.

I gysylltu a Cyngor Gwynedd yn rhagor i ddatgan anfodlonrwydd a'r penderfyniad ac i'w gymeradwyo unwaith yn rhagor.

**1061. I ystyried o pa gamau gall y cyngor ei gymryd i daclo problemau o geir yn cael ei gadael yn Cwm y Glo (Cyng Avril Jones)**

Adroddwyd gan y Cynghorydd Avril Jones ei bod wedi derbyn nifer o gwynion am geir yn cael eu gadael yn y llecyn parcio ar waelod Allt Goch, Cwm y Glo a'r golwg mae'r ceir yma yn adael. Mae yn effeithio ar weledydd yr ardal ac yn amddifadu trigolion lleol rhag parcio eu ceir yno.

**Penderfynwyd:** Cyfeirio'r mater at Gyngor Gwynedd at eu swyddogion gorfodaeth ac o bosib tynnu lluniau o'r sefyllfa fel gellir eu hanfon at y swyddogion perthnasol

Daeth y cyfarfod i ben am 21:15

Arwyddwyd

Cadeirydd: Dyddiad: 20fed o Rhagfyr 2022